

Canllaw categoreiddio ysgolion cynradd: Gwybodaeth i rieni a gofalwyr



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r polisi ar gategoreiddio ysgolion yn unol a'u darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn newid. Mae ysgolion yn cael eu rhoi mewn categorïau i'ch helpu chi i ddewis pa fath o ysgol fydd yn gweithio orau i'ch plentyn. Bydd eich awdurdod lleol yn rhoi gwybod i chi a Llywodraeth Cymru beth yw'r categorïau yma, er mwyn eich helpu chi i ddewis lle i anfon eich plentyn. Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gallu amrywio o un ardal i'r llall, ac mae categoreiddio ysgolion yn ffordd hawdd o wneud yn siŵr fod pawb yn deall pa iaith sy'n cael ei defnyddio ac yn lle.

Mae **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr** yn gosod ein gweledigaeth am yr iaith Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae 562,000 o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, ac rydyn ni eisiau cyrraedd miliwn erbyn 2050. Mae addysg yn rhan hollbwysig o'n gweledigaeth, ac rydyn ni'n credu bod gan bob plentyn hawl i gael yr un cyfle i ddysgu Cymraeg. Rydyn ni eisiau creu siaradwyr Cymraeg hyderus o bob cefndir a rhan o Gymru.



Un ffordd wych o sicrhau hyn yw **addysg drochi mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg**. Rydyn ni hefyd angen cynyddu'r nifer o ddysgwyr Cymraeg hyderus mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog felly rydyn ni eisiau i bob plentyn gael cyfle i ddefnyddio Cymraeg y tu mewn a thu allan i'r dosbarth. Rydyn ni'n annog ysgolion i defnyddio'r Gymraeg wrth iddyn nhw ddiffinio'u categori ieithyddol.



Mae **Cwricwlwm i Gymru** yn dangos sut gall ysgolion ddatblygu dysgu Cymraeg ar draws pob lleoliad, gan ddechrau o ychydig iawn neu ddim Cymraeg a gweithio tuag at greu siaradwyr Cymraeg hyderus. Bydd pob plentyn yn cael eu cyflwyno i'r Gymraeg o dair oed. Bydd hyn yn helpu ein dysgwyr i ddatblygu ac adeiladu ar eu sgiliau Cymraeg.



Gallwch chi ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'ch plentyn ar unrhyw adeg, hyd yn oed ar bwynt mynediad hwyrach. Mae ein **canolfannau trochi hwyr** yma i helpu'ch plentyn i ddysgu Cymraeg mewn amser byr ac yn bydd eich plentyn yn barod i gario ymlaen gyda'i addysg yn y Gymraeg. Cysylltwch â'ch awdurdod lleol am fanylion achos mae yna ganolfannau ar draws Cymru.



Bydd ysgol eich plentyn mewn un o **dri chategori**.

Categori 1: Cyfrwng Saesneg Saesneg yw prif iaith yr ysgolion yma, a bydd cyswllt gyda rhieni a gofalwyr yn Saesneg. Mae ysgolion categori 1 yn gweld fod creu ethos Gymreig am gefnogi ac annog agweddau positif tuag at ddefnyddio Cymraeg.

Mewn ysgol categori 1, bydd eich plentyn yn dysgu siarad, darllen, ysgrifennu a gwrandao yn Saesneg yn unol ag oed a gallu. Bydd yn dysgu Cymraeg fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, gydag o leiaf 15% o weithgaredd ysgol eich plentyn (y tu mewn a thu allan i'r dosbarth) yn y Gymraeg.

Categori 2: Dwy iaith Mae'r ysgolion yma'n defnyddio Cymraeg a Saesneg, a bydd cyswllt gyda rhieni a gofalwyr yn y ddwy iaith. Bydd ysgolion categori 2 yn deall yn iawn fod cynnal ethos Gymreig yn yr ysgol yn cefnogi agweddau positif tuag at ddefnyddio Cymraeg.

Mewn ysgol categori 2, bydd eich plentyn yn dysgu siarad, darllen, ysgrifennu a gwrandao Saesneg a Cymraeg yn unol ag oed a gallu. Bydd sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu cryfhau ymhellach drwy gynyddu faint o amser sy'n cael ei dreulio yn dysgu yn Gymraeg. Gall athrawon ddefnyddio peth Saesneg i gefnogi dealltwriaeth.

Bydd o leiaf 50% o weithgaredd ysgol eich plentyn (y tu mewn a thu allan i'r dosbarth) yn Gymraeg. Gall ysgolion naill ai ddewis darparu popeth yn Gymraeg hyd at saith oed gyda'r opsiwn i ddewis wedi hynny, neu bod 50% o'r weithgaredd ysgol yn Gymraeg drwyddi draw.

Categori 3: Cyfrwng Cymraeg Cymraeg yw prif iaith yr ysgolion yma, a bydd cyswllt gyda rhieni a gofalwyr yn y Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog. Mae ethos Gymreig gryf yn amlwg mewn ysgolion categori 3, a bydd eich plentyn yn cael pob help a chefnogaeth i ddefnyddio Cymraeg ym mhob sefyllfa y tu mewn a thu allan i'r dosbarth. Bydd pob gwers yn Gymraeg, hyd nes i'r plant fod yn saith oed, a bydd athrawon yn defnyddio ychydig o Saesneg wrth ddysgu er mwyn gwneud yn siŵr fod dysgwyr yn deall popeth.

Mewn ysgol categori 3, bydd eich plentyn yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu a gwrandao yn Gymraeg a Saesneg yn unol ag oed a gallu. Mae pob plentyn mewn addysg Gymraeg yn cael ei dysgu yn yr un dosbarth, boed nhw'n siarad Cymraeg adre a'i peidio.

Bydd plant yn dechrau gwarsi Saesneg yn saith oed, ac o hynny ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgaredd ysgol eich plentyn (y tu mewn a thu allan i'r dosbarth) yn Gymraeg.